

Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 18fed o Fehefin 2018 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Arwel Pierce, Alan H. Jones, Bethan Lawton

- Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Peter Parker, Griffith Evan Thomas, Simon Jones
- Datgan diddordeb: Cynghorydd Arwel Pierce - Eitem 6 - Cais Ariannol
Cynghorydd Richard Evans— Eitem 11 - Cais Cynllunio
- Cyngor Gwynedd - Cais am Safle Treftadaeth y Byd i Ardaloedd Llechi Gwynedd:

Croesawyd Swyddog o Gyngor Gwynedd i'r cyfarfod, a derbyniwyd gwybodaeth am gais Gyngor Gwynedd am Statws Treftadaeth y Byd i Ardaloedd Llechi Gwynedd:

- Mae Safle Treftadaeth y Byd yn cael ei restru gan UNESCO fel rhywle sydd o werth corfforol neu ddiwylliannol arbennig.
- Cyngor Gwynedd sydd yn arwain y cais mewn partneriaeth efo Cadw, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Y Comisiwn Brenhinol ar Henebion Cymru, Prifysgol Bangor, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Partneriaeth Llechi Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- Mae gan Gymru dri Safle Treftadaeth y Byd eisoes. Cafodd [dyfrbont Pontcysyllte](#) ger Wrecsam ei chynllunio gan Thomas Telford. Ar ôl iddi gael ei chwblhau yn 1805, hon oedd y croesiad talaf ar gyfer cychod camlesi yn y byd. Cafodd safle [Gweithfeydd Dur Blaenafon](#) ger Y Fenni ei restru oherwydd ei gyfraniad enfawr i'r Chwyldro Diwydiannol. Mae Cestyll Edward 1af yn un o brif atyniadau twristaidd Cymru ac mae un ohonyn nhw, sef [Castell Caernarfon](#), wedi ei leoli yn union y drws nesaf i'r Cei Llechi o ble cafodd miloedd o lechi Cymreig eu hallforio i bedwar ban byd.
- Nid yw ardal Bryncrug wedi ei gynnwys o fewn y cais, ond mae ardaloedd cyfagos fel chwarel Bryneglwys, Abergynolwyn a Reilffordd Talyllyn yn rhan o'r cais.
- Cronfa o arian ar gael er mwyn cysylltu pobl ifanc efo'u hanes, bwriedir cydweithio ag Ysgol Craig Aderyn.
- Y cais am statws yn cael ei gyflwyno er mwyn cynyddu cyfleon cyflogaeth.

PENDERFYNIAD: I ddiolch am y wybodaeth gan y Swyddog. Gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried cynnwys Corris, Aberangell ac Aberdyfi yn y cais.

4. Derbyn cofnodion 21 Mai 2018:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

5. Cyfrifon i'w talu:

B Gwilym	Cyflog	101609	£195.73
Cyllid a Thollau	Yswiriant Gwladol	101610	£49.00
Jones & Jones	Pentref	101611	£467.49
Cyngor Gwynedd	Gwastraff	101612	£93.00

PENDERFYNIAD: I dalu'r anfonebau. Gofyn i Gyngor Gwynedd dori tyfiant y tu ôl i lwybr cerdded Dolithel

6. Cais Ariannol - Dail Dysynni:

Bu i'r Cynghorydd Arwel Pierce ddatgan buddiant sydd ddim yn rhagfarnu, sef ei rôl fel Cadeirydd Dail Dysynni.

PENDERFYNIAD: I gynnig £100 fel rhodd i'r papur.

7. Cais Ariannol - Clwb Padlo Dysynni:

PENDERFYNIAD: Gadael y cais ar y bwrdd. Cyfeirio y clwb at Cost Gwynedd a Rotari Tywyn, gan bod y Cyngor Cymuned yn edrych ar ariannu Clwb Ieuenctid Brynchrug

8. Neuadd Pendre - Gwahoddiad i ddigwyddiad i Gofio Diwedd y rhyfel Byd Cyntaf:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9. Biosffer Dyfi - Cyfle i gynnwys ardal Brynchrug yn y Biosffer:

PENDERFYNIAD: Gwahodd Biosffer Dyfi i gyfarfod o'r Cyngor, sef ym mis Medi 2018 er mwyn trafod y goblygiadau a'r manteision i ardal Brynchrug.

10. Clwb Ieuenctid Brynchrug:

PENDERFYNIAD: Gwahodd Cyngor Gwynedd i gyfarfod nesa'r cyngor.

11. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Fferm Cynfal, Brynchrug (NP5/55/11J):

Bu i'r Cynghorydd Richard Evans ddatgan buddiant sydd yn rhagfarnu, sef mai perthynas agos sydd wedi cyflwyno'r cais cynllunio a bu iddo adael y cyfarfod.

PENDERFYNIAD: Dim sylw i'r cais, gan nad oedd cworwm yng nghyfarfod y Cyngor wedi i gynghorydd ddatgan buddiant sydd yn rhagfarnu a gadael y cyfarfod.

12. Datganiadau Cyfrifyddu 2017/18:

PENDERFYNIAD: I gymeradwyo Datganiadau Cyfrifyddu 2017/18.

13. Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1 a Rhan 2) 2017/18:

PENDERFYNIAD: I gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1 a Rhan 2) 2017/18.

14. Un Llais Cymru - Cytundeb Cyflog Cenedlaethol ar gyfer 2018/19:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y Cytundeb Cyflog Cenedlaethol ar gyfer 2018/19 a'i ôl-ddyddio i Ebrill 2018.

15. Cyngor Gwynedd - Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Rhaglen Waith mis Mehefin 2018:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

16. Seafarers UK - Chwifio'r Faner Goch:

PENDERFYNIAD: I beidio chwifio'r Faner Goch gan nad oes gan y Cyngor bolyn fflag.

17. Creu holiadur ar gyfer y Carnifal:

PENDERFYNIAD: I beidio gwneud holiadur.

18. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-twill yn nenfwd y Pafiliwn, sef yn ystafell y chwaraewyr i ffwrdd
-rhai polion ffin wedi torri
-angen torri gwrych

PENDERFYNIAD: Cael pris am drwsio'r nenfwd gan yr un contractwyr tra yn prisio am atgyweirio'r bocs ar y to. Gofyn i Gapel Bethlehem dorri'r gwrych sydd ar eu tir.

19. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd y canlynol:

- Y Cyngorydd Sir yn eistedd ar y Pwyllgor Craffu
- Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth wedi cael enw newydd, sef Pwyllgor Canolbarth Cymru. Uned newydd yn agor yn Machynlleth, a gall effeithio ar Ysbyty Tywyn pe byddai ymgynghorwyr yn peidio teithio i Dywyn.
- Wedi derbyn cwyn am ochrau ffordd yn disgyn ger Abertrinant a bod angen gorchymyn i wneud y gwaith
- Cyngor Gwynedd yn methu casglu ysbwriel a gwastraff gardd yn aml ym Mryncrug.

PENDERFYNIAD: Ysgrifennu at Cyngor Gwynedd er mwyn mynegi pryderon trigolion am wasanaeth anwadal Cyngor Gwynedd, sef gwasanaeth gall trigolion lleol ddim dibynnu arno.

20. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

PENDERFYNIAD: Ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru er mwyn eu hysbysu bod gwagle mewn wal (flood letter boxes) wedi eu blocio gydag cerrig, o bont Fathew at gyffordd Dolithel. Gofyn hefyd pwy sydd yn gyfrifol am gynnal a chadw “flap Valve” wrth y bont, a be sy’n beryg yn y bont dros y ffos fawr, gan bod arwydd strwythur peryglus wedi ei osod.

Bu i’r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:57pm

Llofnod y Cadeirydd